

---

## **REPORT FROM THE CHAIRMAN OF THE WELSH FOOD ADVISORY COMMITTEE**

Report by Dr Ruth Hussey, Chair of the Welsh Food Advisory Committee (WFAC).

### **1 SUMMARY**

- 1.1 This report from the WFAC Chair reports on the activity of the Committee in Wales for the period **January 2015 to November 2016**. For the majority of this period, Dr Roland Salmon was Chair of the WFAC. I have therefore consulted and cleared an earlier draft of this report with Dr Salmon.
- 1.2 The Board is asked to:
  - **note:** progress made during this period.

### **2 INTRODUCTION**

- 2.1 The WFAC acts as an advisory body to the Food Standards Agency. It is chaired by the Welsh Board member and its role is to advise the FSA on food safety and standards issues, with particular emphasis to Wales. WFAC members provide a wide range of expertise, experience and practical knowledge to the FSA. The Committee works closely with the Food Standards Agency both in Wales and beyond and supports the FSA's values of:
  - putting the consumer first;
  - openness and transparency;
  - science- and evidence-based;
  - acting independently; and
  - enforcing food law fairly.
- 2.2 WFAC's role as defined in the Food Standards Act 1999 is to:
  - give advice or information to the Agency about matters connected with its statutory functions in particular matters or otherwise relating to Wales.

- 2.3 The operating budget expenditure for the WFAC for 2015/16 and the estimated budget expenditure for 2016/17 is shown in Annexe A. The dates of meetings are shown in Annexe B. The Committee has seven members, one of whom is also an FSA Board member and acts as Chair of the Committee. The list of Committee members is shown at Annexe C.

### **3 STRATEGIC AIMS**

- 3.1 The WFAC is committed to working in an open and transparent way by:
  - holding meetings in public;
  - listening to the views of Welsh stakeholders;

- supporting the FSA at public events and stakeholder meetings;
- agenda planning involving the early identification of subjects with Wales specific interests; and
- producing thorough and well-considered advice which it may publish independently

## **4 DISCUSSION**

### Retrospective review – January 2015 to November 2016

- 4.1 Since the Board's last visit to Cardiff in January 2015, the WFAC has considered and agreed advice and comments on over 38 papers reviewed by the Board, mainly on issues where the subject has been relevant to the remit of the FSA in Wales as detailed in Annex e D.
- 4.2 The following are examples of how the Committee's advice and comments on some of the items considered over this period have contributed to FSA policy:-

#### FSA Science Strategy

- 4.3 The WFAC has had input into the process for the development of the Future strategy for FSA Science as well as commenting on the FSA Science, Evidence and Information Strategy 2015-20. The Strategy was discussed in March 2015 and the Delivery Plan in November 2015. In the lead up to the production of the Delivery Plan, the WFAC was grateful for the opportunity to participate in the FSA Science, Evidence and Information Strategy Delivery Plan workshop held in Cardiff in September 2015. The WFAC was delighted to see a collaborative approach and the development of partnership working with academia being emphasised in the plan and, in this respect, welcomed the work being undertaken with the scientific and academic community in Wales, particularly the initial work on evaluating the Food Hygiene Rating scheme. The WFAC was also pleased to note references in the plan to an affordable and healthy diet since this was an issue raised in the workshop session as being highly pertinent in Wales.

#### FSA Strategic Plan

- 4.4 The WFAC has input into the development of the Strategic Plan 2015-20. In March 2015, WFAC gave their consideration to a Board paper on the Strategic Plan 2015-20. The committee welcomed and supported the paper, which was subsequently agreed by the FSA Board, suggesting areas that should be included within a Wales Annexe. The Wales Annexe was published in July 2015. The WFAC was pleased to inform the direction of the overall strategy and welcomed the opportunities we have, specifically in Wales, to undertake activities which build on and enhance the strategic outcomes as set out in the strategy. A number of these are discussed in the separate report provided by Nina Purcell as Director FSA for the FSA in Wales.

Risky Foods

- 4.5 The FSA's approach to 'risky' foods has been discussed at several intervals throughout the period. In January 2015, the WFAC considered the Board's paper on Burgers Served Rare in Food Service Outlets. The Board paper posed a range of work in order for the FSA to re-examine, under its risk foods framework, its current position, a position which had been challenged externally, on the acceptability of rare burgers. At this time, the WFAC made a number of recommendations to be taken into consideration as part of the FSA's programme of further work. The WFAC recommended the need for clear guidance to local authorities on enforcement, particularly in checking of more complex food safety management systems and for a further examination of the potential role of various potential pre-cooking techniques in the preparation of rare burgers to an acceptable level of safety. Further, the WFAC recommended the need to ensure that consumers have clear information about risk at point of sale and highlighted the importance of, and timing, of consumer engagement to explore knowledge and acceptability of levels of risk from rare burgers. Finally, the WFAC identified the need for a greater understanding of the impact on human health, at the level of the population, from the changing risk VT+ *E.coli* O157 (VTEC) that would be anticipated if FSA recommendations on the cooking practices for beef burgers were to change.
- 4.6 The WFAC had a further opportunity to discuss this issue in September 2015. It was a substantial discussion recognising that the science around rare burgers is complicated but concluding in a collective concern about any proposals which might result in an increase in the number of food borne infections, particularly VTEC. The WFAC reiterated its concerns that enforcement difficulties may arise in circumstances even where food business operators have validated food safety management systems in place because those management systems are necessarily complicated and that messaging to consumers on the consumption of burgers served rare from catering establishments could then complicate consumer's understanding of the requirements for the safe cooking of burgers in the home. Also the WFAC was concerned about the potential for secondary spread of infections. Against this background, the WFAC disagreed unanimously with one recommendation in the paper "that the risk from rare burgers in catering establishments is not so unacceptable as to justify removing the adult consumer's right to choose to eat it, provided validated and verified food safety management is applied, including in each case controls set out at section 5.20". This is a view shared by a number of key stakeholders in Wales including the Welsh Food Safety Expert Panel and the Wales Heads of Environmental Health Group, particularly in the light of their experience of dealing with VTEC historically.
- 4.7 In July 2016 the WFAC welcomed the paper provided to the Board which gave an update on all aspects of the work completed and in progress to implement the FSA's position as adopted by the Board in September 2015, that the service of burgers that are not thoroughly cooked is unacceptable unless

there are a range of controls in place. Noting that there were still some concerns to be fully addressed, mainly around source control in the supply chain, the WFAC was appreciative of the FSA's proposals for a consumer messaging campaign to convey the complex difference between cooking burgers in the home and eating out.

### Regulating our Future

- 4.8 The WFAC has addressed the FSA's proposals for Regulating our Future on several occasions during the period of this report. This commenced in January 2015 where a paper on Developing the Future Regulatory Strategy was discussed, in January 2016 when a paper Delivering the FSA's Regulatory Strategy was discussed and again in May 2016 when the Regulating our Future \_paper was discussed by the Board. The WFAC is grateful for the opportunity it has been afforded to be engaged in the discussions taking place to inform the FSA's ambition to transform the way it delivers its regulatory role to meet consumers' expectations for safe, honest, food. The WFAC also noted with approval that the Director Wales had been charged with being Senior Responsible Officer for the project. WFAC was represented alongside a wide range of stakeholders when the principles which have been developed to support the programme were discussed at an event held in Cardiff in February 2016. A number of the WFAC members were also represented in an event held in Llandrindod Wells in March 2016 for local enforcement authorities in Wales. These events provided the opportunity to discuss the framework currently being developed and to share the innovative approaches to regulation already going on around the UK, and internationally.
- 4.9 The WFAC has received a number of updates in relation to the Regulating our Future programme. The WFAC welcomes continued dialogue and input into this matter as the FSA, in collaboration with its key stakeholders, translates the underpinning principles into action. The WFAC particularly emphasised the importance of the independence of the regulator. The WFAC is also conscious of the particular work that will need to be done to accommodate small and medium size enterprises, given their diversity, not least in their readiness and ability to take ownership of issues of quality and safety. It recognises the current system context is different in Wales and recognises that new models will necessarily not be 'one size fits all'. In September 2016, the WFAC commented that it has been pleased with the open and collaborative approach that has been adopted, by the FSA, to inform the design of a future regulatory system. WFAC welcomes the degree of engagement that has taken place to date and has commented upon the governance arrangements proposed to contribute to this work. The WFAC commented that it looks forward to assisting further to re-shape the way the FSA could work with food businesses to deliver food we can trust, in a more sustainable and future- proofed system in line with the goals of the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015.

Briefing Sessions

- 4.10 As part of its ongoing development, the WFAC has received presentations and updates on a series of issues of particular relevance in Wales. The WFAC has participated in sessions on the following issues:
- Food and You Survey, a presentation from the agency's social research informing on the FSA's flagship social survey of the UK population looking at reported behaviours, attitudes and knowledge relating to food safety and other associated topics.
  - Linked into a presentation provided by Professor Sir David Spiegelhalter, an expert in communication of risk and uncertainty, aimed at helping our understanding of the issues surrounding communicating risk and scientific uncertainty to public and policy makers. The committee welcomed the relevance of the presentation in assisting the FSA generally in its strategic objectives of delivering proportionate risk management and regulation and specifically, around the current discussions on 'risky foods'.
  - A presentation on GM foods. This provided the WFAC with an overview of the division of responsibilities between the FSA and Defra and an outline of the EU authorisation process for GM food and feed. Further, the WFAC was informed on the European Commission proposals to amend the authorization regime for GM food and fees that will allow Member States to restrict or ban the use, on their territory, of EU authorized GM products on the basis of compelling non-safety grounds, not related to the safety assessment.
  - A presentation from Welsh Government on the implications of the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015. Members were informed that listed public bodies need to make sure that when making decisions they take into account the impact they could have on people living their lives in Wales in the future. From the presentation it became apparent that while the FSA Wales is not a listed public body, when acting on behalf of Welsh Ministers (for example when making regulations) the Agency will need to comply with the requirements of the Act.
- 4.11 WFAC has engaged with key stakeholders over the period of the report with visits as follows:-
- a visit to Zero2Five, Food industry Centre, Cardiff Metropolitan University where the WFAC engaged in a tour of the facilities and were informed on the Centre's ability to support food businesses in both technical and operational capacity across a wide variety of food disciplines including baking, dairy and food technologies, hygiene management, packaging design, technical management systems and new product development.

- a visit to Cargill meat plants in Hereford, one dedicated to primary processing and the other to further processed chicken. Established over 50 years ago. Cargill currently processes 1.6 million chickens per week. The WFAC found the visit and tour to be informative not only from a scale perspective but also from the demonstrations provided on both the range of equipment and technologies utilised at the plant.

## **5 NEW APPOINTMENTS TO WFAC**

- 5.1 There has been one appointment to the WFAC since April 2013. In May 2016 the term of office of Dr Roland Salmon, Chair of WFAC and Board member for Wales ended. Tim Bennett acted as interim Chair of WFAC pending my appointment on 1 July 2016.

## **6 FORWARD WORK PLAN**

- 6.1 The agendas for WFAC meetings will be developed to ensure the committee continues to be well placed to understand consumer concerns in Wales and to input effectively to the FSA Board from a Wales perspective.
- 6.2 Additionally, WFAC will continue to request briefings, seek information and host discussions on topics deemed to be of particular relevance within Wales. These issues will be discussed alongside those inspired by the Board's agenda and, where appropriate, advice and comments on these items will also be included in the Chair's regular reports to the Board.
- 6.3 WFAC has recently considered a paper which explores opportunities for it to play an enhanced role in engaging with consumers in Wales ensuring that it reaches a cross section of the population. The FSA in Wales' engagement programme provides some opportunity for engagement at key events including the Eisteddfodau and Agricultural shows in Wales and the WFAC is looking to build on this. Further, the WFAC is of the view that it would be beneficial for its members to participate in Citizens Fora and other research opportunities held in Wales. The WFAC is keen to have assurances that the Welsh consumer voice is being captured and analysed in the work undertaken by the FSA and that any distinct, and Welsh specific issues, are being addressed. To help inform this, a synthesis exercise has been commissioned which will review (where the FSA has carried out both qualitative and quantitative research and has a large enough Welsh sample) to enable some further sub group analysis. This research, along with the results of Wave 4 of the FSA's Food and You survey should provide a comprehensive insight into the key issues affecting Welsh consumers and will inform where WFAC might focus its future activities in relation to consumer engagement work. Any future direction will need to be mindful of the remit of the FSA in Wales in relation to food safety and standards. It will also need to take into account the activities of other stakeholders including Welsh Government. In particular, account will need to be taken of Welsh Government's action plan for the food and drink industry in Wales – Towards Sustainable Growth: An Action Plan for the Food and Drink Industry 2014 - 2020.

## **7 CONCLUSION AND RECOMMENDATIONS**

7.1 The Board is asked to:

- **note:** progress made during this period

**ANNEXE A**

**Finances**

	expenditure £ (thousands)	
	2015/16	2016/17 projected)
WFAC members' remuneration	34.6	34.9
Conference costs – includes: - advertising meeting costs - conference/event costs - IT costs meeting costs (sound technician and equipment hire costs)	2.4	1.8
Travel and subsistence costs	included in members' remuneration	
WFAC appointment process costs	0	10
Total costs	37.0	46.7

**ANNEXE B**

**Meetings**

**2015**

- 22 January
- 19 March
- 28 May
- 9 July
- 3 September
- 12 November

**2016**

- 21 January
- 27 February
- 10 March
- 7 July
- 15 September
- 17 November

**ANNEXE C**

**WFAC Membership**

1. With the exception of a new Chair, there have been no new appointments to WFAC since November 2015. There are five appointments which are due for consideration in June 2017. The current membership of the Committee is as follows:

- Dr. Roland Salmon – Chair of WFAC and Board member for Wales (appointment ended June 2016)
- Dr Ruth Hussey – Chair of WFAC and Board member for Wales (appointment commenced July 2016)
- Mr. Ronnie Alexander - (First term of appointment ends 30 June 2017)
- Dr. Norma Barry - (First term of appointment ends 30 June 2017)
- Dr. Hugh Jones - (Third term of appointment ends 30 June 2018)
- Mrs. Sue Jones - (Third term of appointment ends 30 June 2017)
- Mr. Derek Morgan - (Third term of appointment ends 30 June 2017)
- Mr. David Peace - (First term of appointment ends 30 June 2017)

2. Biographical details of all members are detailed on the Agency's website:

<http://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales-0/advisorycommitteewales/acwmembers>

**ANNEXE D**  
**Items Discussed**

<b>WFAC Open Meeting</b>	<b>Agenda Items</b>
22 Jan 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Developing the Future Regulatory Strategy</li><li>• Burgers Served Rare in Food Service Outlet: An Application of the Framework for our approach to Risky Foods</li><li>• Implementing the Recommendations of Post-Horsemeat Reviews</li></ul>
19 Mar 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Food Standards Agency Strategic Plan 2015-20</li><li>• Future Strategy for FSA Science</li><li>• Food Hygiene Rating Scheme</li></ul>
28 May 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Update on new Audit Arrangements in FSA Approved Meat Establishments Within the UK</li><li>• Update on Animal Welfare</li></ul>
9 July 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Update on FSA Review of Controls for Raw Drinking Milk</li><li>• Update on Reducing Campylobacter</li><li>• Engaging with Consumers</li></ul>
3 Sep 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Development of the Framework for Controls Relating to Food Hygiene Where the Risks per Serving are Significant, and its Further Application to Burgers Served Rare in Catering Establishments</li><li>• Update on European Commission's Amendments to the TSE Regulations – Impacts for the UK</li><li>• Stow project – Phase 2</li><li>• Progress Update on the Development of the</li></ul>

## Board Meeting – 23 November 2016

	National Food Crime Unit and Other key Recommendations of the Post Horsemeat Reviews
12 Nov 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• FSA Science, Evidence and Information Strategy 2015-20, Delivery Plan</li><li>• Annual Report and Forward Look From the General Advisory Committee on Science</li></ul>
21 Jan 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• A Data Driven FSA</li><li>• UK Local Authority Food Law Enforcement Annual Report 2014/15</li></ul>
10 Mar 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• FSA Innovation Plan</li><li>• Campylobacter Programme. Update on Progress and Next Steps</li><li>• Stow Project – Phase 2 – Sustainable Funding Model Project Scope</li></ul>
12 May 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• FSA Triennial Review of Six Scientific Advisory Committees</li><li>• National Food Crime Unit</li><li>• Our Food Futures</li><li>• Regulating our Future</li></ul>
7 July 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• Development of a Framework for Assessment of Foods Which May Present an Increased Likelihood of Harm</li><li>• An Update on Burgers Served Less Than Thoroughly Cooked in Food Service Outlets</li><li>• Antimicrobial Resistance</li><li>• Incidents and Resilience Annual Report 2015/16</li></ul>
15 Sept 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• Animal Welfare</li><li>• The Consumer Interest in the Food System</li><li>• Regulating our Future Programme Update</li></ul>

17 Nov 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• National Food Crime Review</li><li>• Vulnerability</li><li>• Developing Proportionate Controls for Risky Foods</li><li>• FSA Science</li><li>• TSE Surveillance Controls</li></ul>
-------------	--

### **Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru**

Adroddiad gan Dr Ruth Hussey, Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (Y Pwyllgor).

#### **1 Crynodeb**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn gan Gadeirydd y Pwyllgor yn rhoi gwybod am weithgarwch y Pwyllgor yng Nghymru rhwng mis **Ionawr 2015** a mis **Tachwedd 2016**. Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, Dr Roland Salmon oedd Cadeirydd y Pwyllgor. Felly, rwyf wedi ymgynghori â Dr Salmon ac wedi clirio drafft cynharach o'r adroddiad hwn.
- 1.2 Gofynnir i'r Bwrdd:
  - **Nodi:** y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

#### **2 Cyflwyniad**

- 2.1 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel corff ymgynghori i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Caiff ei gadeirio gan Aelod y Bwrdd sy'n cynrychioli Cymru a'i rôl yw cyngori'r ASB ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd, gyda phwyslais arbennig ar Gymru. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnig amrywiaeth eang o arbenigedd, profiad a gwybodaeth ymarferol i'r ASB. Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n agos â'r ASB yng Nghymru a thu hwnt ac mae'n cefnogi gwerthoedd yr ASB, sef:
  - rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
  - bod yn agored ac yn dryloyw;
  - defnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth;
  - gweithredu'n annibynnol;
  - gorfodi cyfraith bwyd yn deg.

- 2.2 Yn ôl Deddf Safonau Bwyd 1999, rôl y Pwyllgor yw:

- cynnig cyngor a gwybodaeth i'r Asiantaeth ar faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau, gan gynnwys materion penodol sy'n effeithio ar Gymru.

- 2.3 Mae union wariant cyllideb y Pwyllgor ar gyfer 2015/16 ac amcangyfrif gwariant y gyllideb ar gyfer 2016/17 i'w weld yn Atodiad A. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd i'w gweld yn Atodiad B. Mae saith aelod ar y Pwyllgor, gydag un ohonynt sydd hefyd yn aelod o Fwrdd yr ASB ac sydd â'r rôl Cadeirydd y Pwyllgor. Mae rhestr o aelodau'r Pwyllgor i'w gweld yn Atodiad C.

#### **3 Nodau strategol**

- 3.1 Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd agored a thryloyw drwy:

- gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus;
- gwrando ar safbwytiau rhanddeiliaid yng Nghymru;
- cefnogi'r ASB mewn digwyddiadau cyhoeddus a chyfarfodydd rhanddeiliaid;
- pennu materion o bwys, gan gynnwys nodi pynciau sydd o ddiddordeb penodol i Gymru yn gynnar yn y broses;
- llunio cyngor trylwyr ac ystyrlon y gall ei gyhoeddi'n annibynnol.

#### **4 Trafodaeth**

##### Ôl-adolygiad – mis Ionawr 2015 hyd at fis Tachwedd 2016

- 4.1 Ers ymweliad diwethaf y Bwrdd â Chaerdydd ym mis Ionawr 2015, mae'r Pwyllgor wedi rhoi eu sylwadau ac wedi cytuno ar gyngor ar fwy na 38 o bapurau a adolygwyd gan y Bwrdd, yn bennaf ar faterion sy'n ymwneud â phynciau sy'n berthnasol i gylch gwaith yr ASB yng Nghymru. Ceir manylion y rhain yn Atodiad D.
- 4.2 Ceir enghreifftiau isod o sut mae cyngor a sylwadau'r Pwyllgor ar rai o'r materion a drafodwyd yn ystod y cyfnod hwn wedi cyfrannu at bolisiau'r ASB:

##### Strategaeth Gwyddoniaeth yr ASB

- 4.3 Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at waith datblygu Strategaeth y dyfodol ar gyfer Gwyddoniaeth yr ASB yn ogystal â rhoi sylwadau ar Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth yr ASB 2015-20. Cafodd y Strategaeth ei thrafod ym mis Mawrth 2015 a thrafodwyd y Cynllun Cyflawni ym mis Tachwedd 2015. Cyn cynhyrchu'r Cynllun Cyflawni, roedd y Pwyllgor yn falch o'r cyfle i gymryd rhan yng ngweithdy Cynllun Cyflawni Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwyddoniaeth yr ASB a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Medi 2015. Roedd y Pwyllgor yn croesawu dulliau o gydweithio, gan bwysleisio gwaith mewn partneriaeth ag academia a'r gymuned wyddonol ac academaidd yng Nghymru, yn enwedig y gwaith cychwynnol ar werthuso'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o weld y cynllun yn cyfeirio at fater perthnasol iawn i Gymru a gafodd ei godi yn y gweithdy, sef deiet iach a fforddiadwy.

##### Cynllun Strategol yr ASB

- 4.4 Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at ddatblygu Cynllun Strategol 2015-20. Ym mis Mawrth 2015, aeth y Pwyllgor ati i drafod papur y Bwrdd ar Gynllun Strategol 2015-20. Croesawodd y Pwyllgor y papur gan awgrymu meysydd y dylid eu cynnwys o fewn Atodiad Cymru. Cafodd y papur ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Cyhoeddwyd Atodiad Cymru ym mis Gorffennaf 2015. Roedd y Pwyllgor yn falch o'r cyfle i lywio cyfeiriad y strategaeth yn gyffredinol, ac yn croesawu'r cyfleoedd y mae'r ASB yng Nghymru yn eu cael i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cryfhau ac yn adeiladu ar ganlyniadau strategol y strategaeth. Mae Nina Purcell, Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru, yn trafod nifer o'r canlyniadau hyn yn ei hadroddiad hi hefyd.

Bwydydd sy'n Peri Risg

- 4.5 Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafwyd sawl trafodaeth ar ddull o weithio'r ASB mewn perthynas â bwydydd sy'n peri risg. Ym mis Ionawr 2015, aeth y Pwyllgor ati i drafod papur y Bwrdd ar Weini Byrgyrs Gwaedlyd Mewn Sefydliadau Bwyd. Yn y papur, ac o dan ei fframwaith ar fwydydd sy'n peri risg, gofynnwyd i'r ASB edrych eto ar ei safbwyt presennol ar ba mor dderbyniol yw gweini byrgyrs gwaedlyd. Mae'r safbwyt hwn wedi cael ei herio y tu allan i'r ASB. Ar y pryd, aeth y Pwyllgor ati i gyflwyno nifer o argymhellion i'w hystyried fel rhan o waith pellach yr ASB ar y mater hwn. Roedd y Pwyllgor yn argymhellodd bod angen canllawiau gorfodi clir ar awdurdodau lleol, yn arbennig wrth wirio systemau rheoli diogelwch bwyd mwy cymhleth, a bod angen edrych yn fanylach ar rôl bosibl y gall technegau coginio ymlaen llaw eu chwarae wrth baratoi byrgyrs gwaedlyd i lefel diogel derbyniol. At hynny, argymhellodd y Pwyllgor bod angen gwybodaeth glir ar ddefnyddwyr am y risg yn y man gwerthu. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd ac amseru ymgysylltu â defnyddwyr er mwyn canfod mwy am yr hyn maent yn ei wybod am fyrgyrs gwaedlyd, a'r lefel o risg sy'n dderbyniol iddynt. Yn olaf, nododd y Pwyllgor bod angen gwell dealltwriaeth o effaith risg VT ac *E.coli* O157 (VTEC) ar iechyd pobl pe byddai argymhellion yr ASB ar arferion coginio byrgyrs yn newid.
- 4.6 Cafodd y Pwyllgor gyfle arall i drafod y mater hwn ym mis Medi 2015. Bu'n drafodaeth sylweddol, gan gydnabod bod yr wyddoniaeth ar fyrgyrs gwaedlyd yn gymhleth. Roedd yr aelodau'n pryderu am unrhyw gynigion a allai arwain at gynnydd yn nifer yr heintiau a gludir mewn bwyd, yn enwedig VT+ *E.coli* O157 (VTEC). Aeth y Pwyllgor ati i ailadrodd bod modd i broblemau gorfodi godi mewn rhai amgylchiadau, hyd yn oed pan fydd gweithredwyr busnesau bwyd yn gweithredu systemau rheoli diogelwch bwyd dilys, gan fod y systemau rheoli hynny yn gymhleth o reidrwydd. Hefyd, pwysleisiodd y Pwyllgor y gallai gwaith cyfathrebu â defnyddwyr am fwyta byrgyrs gwaedlyd mewn sefydliadau arlwo Gymhlethu eu dealltwriaeth o ran y gofynion wrth eu coginio'n ddiogel yn y cartref. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu am y potensial i heintiau eilradd ledaenu. Ar ôl ystyried yr wybodaeth gefndirol, roedd y Pwyllgor yn anghytuno'n unfrydol gydag un argymhelliaid yn y papur, sef "nad yw'r risg a berir gan fyrgyrs sy'n cael eu gweini'n waedlyd mewn sefydliadau arlwo mor annerbyniol i gyflawnhau cael gwared ar hawl oedolyn i ddewis ei fwyta, cyn belled â bod system rheoli diogelwch bwyd ddilys ar waith, gan gynnwys mesurau rheoli ym mhob achos, fel y nodir yn adran 5.20". Dyma safbwyt sy'n cael ei rannu gan nifer o'r prif randdeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru a Phenaethiaid lechyd yr Amgylchedd Cymru, yn arbennig wrth ystyried eu profiad o ran ymdrin â VTEC yn y gorffennol.
- 4.7 Ym mis Gorffennaf 2016, aeth y Pwyllgor ati i drafod papur y Bwrdd, a oedd yn rhoi diweddarriad ar bob agwedd ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i weithredu safbwyt yr ASB, fel y'i mabwysiadwyd gan y

Bwrdd ym mis Medi 2015. Y safbwyt hwn yw bod gweini byrgyrs nad ydynt wedi'u coginio'n drylwyr yn annerbyniol oni bai bod ystod o fesurau rheoli ar waith. Gan nodi bod angen mynd i'r afael â rhai o'r pryderon o hyd, yn bennaf yngylch rheoli'r ffynhonnell yn y gadwyn gyflenwi, roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi cynigion yr ASB i gynnal ymgyrch gyfathrebu i ddefnyddwyr er mwyn esbonio'r gwahaniaeth cymhleth rhwng coginio byrgyrs yn y cartref a'u bwyta nhw mewn bwyta.

### Rheoleiddio ein Dyfodol

- 4.8 Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru wedi trafod cynigion yr ASB ar gyfer Rheoleiddio ein Dyfodol sawl gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Dechreuodd hyn ym mis Ionawr 2015 pan drafodwyd papur ar Ddatblygu Strategaeth Reoleiddio ar gyfer y Dyfodol, ym mis Ionawr 2016 pan drafodwyd papur ar Gyflawni Strategaeth Reoleiddio'r ASB ac unwaith eto ym mis Mai 2016 pan drafododd y Bwrdd bapur Rheoleiddio ein Dyfodol. Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru yn ddiolchgar am y cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau i lywio uchelgais yr ASB, sef i drawsnewid y ffordd y mae hi'n ymgymryd â'i rôl reoleiddio er mwyn bodloni disgwyliadau defnyddwyr, a sicrhau bwyd diogel ac onest. Fe nododd y Pwyllgor hefyd bod Cyfarwyddwr Cymru wedi'i phenodi fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y prosiect, gan gymeradwyo hynny. Pan drafodwyd yr egwyddorion a ddatblygwyd i gefnogi'r rhaglen mewn digwyddiad a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd ym mis Chwefror 2016, roedd cynrychiolwyr ar ran y Pwyllgor, law yn llaw ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn bresennol. Roedd nifer o aelodau'r Pwyllgor Cynghori hefyd yn bresennol mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn Llandrindod ym mis Mawrth 2016 ar gyfer awdurdodau gorfodi lleol yng Nghymru. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i drafod y fframwaith sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, ac i rannu dulliau rheoleiddio arloesol sydd eisoes ar waith ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ac yn rhwngwladol.
- 4.9 Mae Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru wedi cael ei ddiweddu sawl gwaith mewn perthynas â rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sgwrs a'r mewnbwn parhaus wrth i'r ASB, mewn cydweithrediad a'i phrif randdeiliaid, drosi prif egwyddorion y rhaglen yn gamau gweithredu. Yn benodol, pwysleisiodd y Pwyllgor pa mor bwysig yw annibyniaeth y rheoleiddiwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r gwaith penodol y bydd gofyn ei gynnal er mwyn cynnwys busnesau bach a chanolig, o ystyried eu hamrywiaeth, a hefyd eu parodrwydd a'u gallu i gymryd cyfrifoldeb am faterion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyddestun y system gyfredol yn wahanol yng Nghymru, ac yn cydnabod na fydd modelau newydd o reidrwydd yn addas i bawb. Ym mis Medi 2016, nododd y Pwyllgor ei fod yn hapus â dull agored a chydlynol yr ASB o lywio dyluniad system reoleiddio gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn croesawu lefel yr ymgysylltu hyd yn hyn, ac wedi rhoi sylwadau ar y trefniadau llywodraethu sydd wedi'u cynnig i gyfrannu at y gwaith hwn. Nododd y Pwyllgor ei fod yn edrych ymlaen at gynnig rhagor o gymorth wrth ail-lunio'r ffordd y gallai'r ASB weithio â busnesau bwyd i sicrhau bwyd y gallwn ymddiried ynddo. Y nod yw

sicrhau hynny mewn system fwy cynaliadwy sy'n addas at y dyfodol, a hynny yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Sesiynau briffio**

- 4.10 Fel rhan o ddatblygiad parhaus y Pwyllgor, mae wedi cymryd rhan mewn sesiynau a chyflwyniadau ar gyfres o faterion sy'n benodol berthnasol i Gymru. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn sesiynau ar y pynciau canlynol hyn:
- Arolwg 'Bwyd a Chi' – cyflwyniad gan dîm ymchwil cymdeithasol yr ASB ar ei phrif arolwg cymdeithasol o boblogaeth y Deyrnas Unedig yn edrych ar ymddygiadau, agweddau a gwybodaeth mewn perthynas â diogelwch bwyd a phynciau cysylltiedig.
  - Cafwyd cyflwyniad gan Syr David Spiegelhalter, arbenigwr ar gyfathrebu risg ac ansicrwydd, gyda'r nod o wella ein dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chyfathrebu risg ac ansicrwydd gwyddonol i'r cyhoedd a'r rheiny sy'n llunio polisi. Croesawodd y Pwyllgor pa mor berthnasol oedd y cyflwyniad o ran cynorthwyo'r ASB yn ei hamcanion strategol o fynd ati mewn ffordd gymesur i reoli risg a rheoleiddio ac, yn benodol, o ran y trafodaethau presennol ar 'fwydydd sy'n peri risg'.
  - Cyflwyniad ar fwydydd GM. Roedd yn egluro i'r Pwyllgor sut y caiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng yr ASB ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), ac yn amlinellu proses awdurdodi'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid GM. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor ei hysbysu am gynigion y Comisiwn Ewropeaidd i ddiwygio'r drefn awdurdodi ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid GM. Byddai'r cynigion hyn yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau wahardd neu gyfyngu ar y defnydd o gynhyrchion GM sydd wedi'u hawdurdodi gan yr Undeb Ewropeaidd yn eu gwladwriaethau nhw ar sail rhesymau nad ydynt yn ymwneud â diogelwch, ac nad ydynt yn gysylltiedig â'r asesiad diogelwch.
  - Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar oblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd aelodau eu hysbysu bod gofyn i gyrrf cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith bosibl ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol. Daeth yn glir o'r cyflwyniadau, er nad yw'r ASB wedi'i rhestru yn y Ddeddf, wrth weithredu ar ran Gweinidogion Cymru (e.e. wrth lunio rheoliadau), bydd gofyn i'r ASB gydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- 4.11 Mae'r Pwyllgor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol dros y cyfnod a nodir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys yr ymweliadau hyn:

- ymweliad â Zero2Five, Canolfan y Diwydiant Bwyd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Cafodd yr aelodau eu tywys o amgylch y cyfleusterau gan ddysgu am allu'r Ganolfan i gefnogi busnesau bwyd yn dechnegol ac yn weithredol ar hyd a lled amrywiaeth eang o ddisgyblaethau. Roedd y rhain yn cynnwys pobi, technolegau cynnrychllaeth a bwyd, rheoli hylendid, dylunio deunydd pecynnau, systemau rheoli technegol a datblygu cynhyrchion newydd.
- ymweliad â ffatrioedd cig Cargill yn Henffordd, un sy'n gyfrifol am gynhyrchu cynradd a'r llall sy'n ymdrin â chyw iâr sydd wedi'i brosesu ymhellach. Sefydlyd cwmni Cargill dros 50 mlynedd yn ôl. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni yn prosesu 1.6 miliwn o gyw iâr bob wythnos. Dywedodd y Pwyllgor bod yr ymweliad wedi bod yn brofiad addysgiadol iawn, nid yn unig o ran perspectif maint y cwmni, ond hefyd o ran yr amrywiaeth o offer a thechnolegau a ddefnyddir yn y ffatrioedd.

## **5 Aelodau Newydd o Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru**

- 5.1. Mae un aelod newydd wedi'i benodi i'r Pwyllgor ers mis Ebrill 2013. Ym mis Mai 2016, daeth tymor Dr Roland Salmon, Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ac Aelod Bwrdd Cymru, i ben. Camodd Tim Bennett i'r rôl fel Cadeirydd dros dro cyn i mi gael fy mhenodi ar 1 Gorffennaf 2016.

## **6 Cynllun Gwaith y Difodol**

- 6.1 Bydd agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyngori yn cael eu datblygu i sicrhau bod y pwylgor yn parhau i ddeall pryderon defnyddwyr yng Nghymru, ac i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau'r Bwrdd o safbwyt Cymru.
- 6.2 Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn parhau i geisio sesiynau briffio, gwybodaeth a thrafodaethau ar bynciau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru. Bydd y materion hyn yn destun trafod ochr yn ochr â'r rheiny sy'n deillio o agenda'r Bwrdd a, lle bo'n briodol, bydd cyngor a sylwadau ar yr eitemau hyn hefyd yn rhan o adroddiadau rheolaidd y Cadeirydd i'r Bwrdd.
- 6.3 Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi ystyried papur sy'n archwilio cyfleoedd iddo chwarae'r rôl ehangach wrth ymgysylltu â defnyddwyr yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd croestoriad o'r boblogaeth. Mae rhaglen ymgysylltu'r ASB yng Nghymru yn gyfle i ymgysylltu mewn digwyddiadau allweddol, gan gynnwys yr Eisteddfodau a'r sioeau amaethyddol yng Nghymru, ac mae'r Pwyllgor yn gobeithio cynyddu'r cyfleoedd hyn. At hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol i'w aelodau gymryd rhan mewn Fforymau Dinas yddion a chyfleoedd ymchwil eraill a gynhelir yng Nghymru. Nododd y Pwyllgor ei fod yn awyddus i gael sicrwydd bod lleisiau defnyddwyr Cymru yn cael eu casglu a'u dadansoddi yn y gwaith a gynhelir gan yr ASB, ac yr eir i'r afael ag unrhyw safbwytiau amlwg sy'n benodol i Gymru. Er mwyn helpu i lywio hyn, mae ymarfer synthesis wedi'i gomisiynu a fydd yn adolygu'r gwaith ymchwil hwn (lle mae'r ASB wedi cynnal ymchwil ansodol a

meintiol a chyda sampl digon mawr o Gymru) er mwyn dadansoddi ymhellach. Dylai'r gwaith ymchwil, law yn llaw â chanlyniadau Ton 4 o arolwg 'Bwyd a Chi' yr ASB, roi cipolwg cynhwysfawr i ni o'r prif faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr yng Nghymru, a bydd yn llywio'r meysydd hynny y gall y Pwyllgor ganolbwytio arnynt yn ei waith ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd angen i unrhyw weithgarwch yn y dyfodol ystyried cylch gwaith yr ASB yng Nghymru mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd. Bydd hefyd angen cymryd i ystyriaeth gweithgarwch rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Yn arbennig, bydd angen ystyried cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru – Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020.

## 7 Casgliad ac Argymhellion

### 7.1 Gofynnir i'r Bwrdd:

- **Nodi:** y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

**Atodiad A**

**Cyllid**

	gwariant £ (miloedd)	
	2015/16	2016/17 amcangyfrif)
Tâl Cydnabyddiaeth yr Aelodau	34.6	34.9
Cotau cynhadledd – yn cynnwys: - costau hysbysebu cyfarfodydd - costau cynadleddarau/digwyddiadau - Costau TG y cyfarfodydd (technegydd sain a chostau hurio offer)	2.4	1.8
Costau teithio a chynhaliaeth	wedi'u cynnwys yn Nhâl Cydnabyddiaeth yr Aelodau	
Costau prosesau penodi i'r Pwyllgor	0	10
Cyfanswm y costau	37.0	46.7

**Atodiad B**

**Cyfarfodydd**

**2015**

- 22 Ionawr
- 19 Mawrth
- 28 Mai
- 9 Gorffennaf
- 3 Medi
- 12 Tachwedd

**2016**

- 21 Ionawr
- 27 Chwefror
- 10 Mawrth
- 7 Gorffennaf
- 15 Medi
- 17 Tachwedd

**Atodiad C**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru**

1. Ac eithrio'r Cadeirydd newydd, nid oes unrhyw aelod newydd wedi'i benodi i Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ers mis Tachwedd 2015. Bydd gofyn ystyried pum penodiad ym mis Mehefin 2017. Dyma restr o aelodau presennol y Pwyllgor:

- Dr. Roland Salmon – Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Bwrdd i Gymru (daeth ei dymor i ben ym mis Mehefin 2016)
- Dr Ruth Hussey – Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Bwrdd i Gymru (dechreuodd yn y swydd mis Gorffennaf 2016)
- Mr. Ronnie Alexander – (Daw tymor cyntaf ei benodiad i ben 30 Mehefin 2017)
- Dr. Norma Barry – (Daw tymor cyntaf ei phenodiad i ben 30 Mehefin 2017)
- Dr. Hugh Jones – (Daw trydydd tymor ei benodiad i ben 30 Mehefin 2018)
- Mrs. Sue Jones – (Daw trydydd tymor ei phenodiad i ben 30 Mehefin 2017)
- Mr. Derek Morgan – (Daw trydydd tymor ei benodiad i ben 30 Mehefin 2017)
- Mr. David Peace – (Daw tymor cyntaf ei phenodiad i ben 30 Mehefin 2017)

2. Mae manylion bywgraffiadol yr aelodau ar gael wefan yr ASB:

<http://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales-0/advisorycommitteewales/acwmembers> – cliciwch ar Cymraeg

**Atodiad D  
Eitemau a Drafodwyd**

<b>Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru</b>	<b>Eitemau ar yr Agenda</b>
22 Ionawr 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygu Strategaeth Reoleiddio ar gyfer y Dyfodol</li><li>• Byrgyrs a Gaiff eu Gweini'n Waedlyd mewn Safleoedd Bwyd: Defnyddio'r Fframwaith ar gyfer delio â bwydydd sy'n peri risg</li><li>• Gweithredu ar Argymhellion yr Adolygiadau ar y digwyddiad Cig Ceffyl</li></ul>
19 Mawrth 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cynllun Strategol yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2015-20</li><li>• Strategaeth y Dyfodol ar gyfer Gwyddoniaeth yr ASB</li><li>• Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd</li></ul>
28 Mai 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddariad ar Drefniadau Archwilio Newydd mewn Sefydliadau Cig sydd wedi'u Cymeradwyo gan yr ASB yn y Deyrnas Unedig</li><li>• Diweddariad ar Les Anifeiliaid</li></ul>
9 Gorffennaf 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddariad ar Adolygiad yr ASB o Laeth Yfed Amrwd</li><li>• Diweddariad ar Leihau Campylobacter</li><li>• Ymgysylltu â Defnyddwyr</li></ul>
3 Medi 2015	<ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygu'r fframwaith o fesurau rheoli hylendid bwyd lle mae'r risgiau fesul dogn yn sylweddol, a'i</li></ul>

## Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) FSA 16/11/09

### Cyfarfod y Bwrdd – 23 Tachwedd 2016

	<p>weithredu ymhellach mewn sefydliadau arlwo sy'n gweini byrgyrs gwaedlyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddariad ar ddiwygiadau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Rheoliadau TSE – y goblygiadau i'r Deyrnas Unedig (DU)</li> <li>• Prosiect Stow – Cyfnod 2</li> <li>• Diweddariad ar ddatblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ac argymhellion allweddol eraill sy'n deillio o'r adolygiadau wedi'r digwyddiad cig ceffyl</li> </ul>
12 Tachwedd 2015	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Gwybodaeth yr ASB 2015-20, Cynllun Cyflawni</li> <li>• Pwyllgor Cynghori Cyffredinol ar Wyddoniaeth (GACS): Adroddiad Blynnyddol a bwrw golwg ymlaen</li> </ul>
21 Ionawr 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio Data i lywio'r ASB</li> <li>• Adroddiad Blynnyddol Camau Gorfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol 2014/15</li> </ul>
10 Mawrth 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Arloesi'r ASB</li> <li>• Y Rhaglen Campylobacter – Diweddariad ar gynnydd a'r camau nesaf</li> <li>• Ail Gam Prosiect Stow – Cwmpas Prosiect Model Ariannu Cynaliadwy</li> </ul>
12 Mai 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad Tair Blynedd o Chwe Pwyllgor Cynghori Gwyddonol</li> <li>• Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd</li> <li>• Bwyd: Ein Dyfodol</li> <li>• Rheoleiddio ein Dyfodol</li> </ul>
7 Gorffennaf 2016	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu Fframwaith ar gyfer Asesu Bwyd a Allai Beri Risg Gynyddol o Niwed</li> <li>• Gweini Byrgyrs nad ydynt Wedi'u Coginio'n Drylwyr Mewn Safleoedd Bwyd: Diweddariad</li> </ul>

## Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) FSA 16/11/09

### Cyfarfod y Bwrdd – 23 Tachwedd 2016

	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymwrthedd Gwrthficrobaidd</li><li>• Digwyddiadau a Gwydnwch: Adroddiad Blynnyddol 2015/16</li></ul>
15 Medi 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• Lles anifeiliaid</li><li>• Diddordeb Defnyddwyr yn y System Fwyd</li><li>• Rheoleiddio ein Dyfodol – y diweddaraf ar y rhaglen</li></ul>
17 Tachwedd 2016	<ul style="list-style-type: none"><li>• Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd</li><li>• Agored i Niwed</li><li>• Datblygu Mesurau Rheoli Cymesur ar gyfer Bwydydd sy'n Peri Risg</li><li>• Gwyddoniaeth yr ASB</li><li>• Mesurau Cadw Golwg ar TSE</li></ul>